YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

18 Chwefror 2025

Annwyl Riant / Warcheidwad,



*Illtud yn fuddugol!*




*Coroni Gwenlliw ac Erin Eisteddfod Ysgol 2025*

**Eisteddfod Ysgol –** Cawsom Eisteddfod Ysgol wych yr wythnos diwethaf gydag Illtud yn ennill prif darian yr Eisteddfod a tharian y Côr.  Roeddem yn hynod falch o longyfarch y buddugwyr yng nghystadleuaeth y Goron (rhyddiaith Saesneg) sef, Gwenlliw Tilsley (Hŷn) ac Erin Richards (Iau) ac i ddathlu llwyddiant Rhys Matthews ac Elen Thomas-Evans yng nghystadleuaeth y Gadair Hŷn a Iau. Braf llongyfarch Lydia Lawson am ddod yn ail a Holly Cobb yn drydydd yn y Goron Hŷn ac i Shanno Rasool ac Alys Edwards am ddod yn ail a thrydydd yng nghystadleuaeth y Gadair Hŷn.  Hoffem longyfarch pawb a gymerodd ran mor arbennig ar y diwrnod – o'n gymnastwyr i bob un disgybl a gamodd ar y llwyfan i greu dathliad Cymreig hynod, hynod gofiadwy!

**Eisteddfod yr Urdd – Llwyddiannau offerynnol sirol -** Llongyfarchiadau gwresog i'n holl gystadleuwyr yn Eisteddfod Offerynnol y Sir yr wythnos diwethaf. Daeth y canlynol ymysg y tri uchaf sef: Ben Manville Parry, Llew Mills, Gethin Frohawk, Iona White, Tom Davies, Owen Frohawk, Steffan John, Gwenlliw Tilsley yn ogystal â'r Ensembles Iau a Hŷn. Bydd Cerddorfa yr Ysgol hefyd yn cynrychioli Glantaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolchwn i'r nifer fawr o ddisgyblion a gynrychiolodd Glantaf yn y cyntaf o'r Eisteddfodau Sir hyn gan ddiolch i staff am yr holl waith paratoi. Roedd hefyd yn bleser gweld cynifer o'n disgyblion yn cymryd rhan ac yn perfformio'n hyfryd yn Eisteddfod Caerdydd ddechrau'r mis.  Pob dymuniad i bawb dros y mis nesaf...

Cyfarfu'r **Senedd Gwrth Hiliaeth a Chynhwysiant** am y tro cyntaf, gan ddod â'u syniadau at ei gilydd i geisio gwneud yr ysgol yn fwy cynhwysol. Maent wedi dechrau gweithio ar ddatganiad grŵp a fydd yn diffinio pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n sefyll amdano. Maen nhw'n gobeithio dilyn hyn drwy greu siarter ysgol gyfan i'n helpu ni ar ein taith i fod yn gymuned wrth-hiliol. Diolch i'r holl fyfyrwyr sydd wedi dangos diddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp pwysig hwn



**Blwyddyn 11 - Ffug Gyfweliadau** - Diolch i Gyrfa Cymru am drefnu ffug gyfweliadau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11. Mae'n brofiad pwysig i ddisgyblion allu datblygu sgiliau cyfweld ar gyfer y dyfodol. Hoffem ddiolch i'r cwmnïau canlynol a ddarparodd staff i ddod i mewn a chynnal y cyfweliadau: Gyrfa Cymru, Addysgwyr Cymru, Sphere Solutions, Sacyr, SKY, Hodge Bank, Cyngor Caerdydd, PDC, Kocho, Tŷ'r Cwmnïau, Stable, Kier, Principality, *Diolch yn fawr!*

**Cyfarfod Fforwm Busnes:** Diolch yn fawr i Martha Glenn a Betsan Newis o Flwyddyn 9 am rannu eu profiad ar Brosiect *Pentref Taf* y llynedd. Mae eu mewnbwn wedi bod yn bwysig wrth lunio ein cynlluniau ar gyfer y prosiect eleni, ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.  Rydym yn hynod ffodus i gael Fforwm Busnes sy'n llawn partneriaid brwdfrydig sy'n awyddus i gyfrannu a chyfoethogi profiadau ein disgyblion. Diolch yn arbennig i Willmott Dixon, Ymrwymiad Caerdydd, Mott MacDonald, Pepper Money, Stable, Kocho, Kier, Tŷ'r Cwmnïau, Penseiri Rio a Gyrfa Cymru am eu cefnogaeth garedig.



*Disgyblion bl9 yn cyflwyno i'r Fforwm Busnes*

***Saum*, ympryd mis Ramadan -** Rydym yn dymuno'n dda i'n teuluoedd Mwslimaidd yn ystod ymprydio *Saum* yn ystod mis Ramadan a'r holl ddisgyblion hynny a fydd yn cadw rhai neu bob agwedd o'r ympryd a fydd yn dechrau yn ystod hanner tymor Chwefror. Ar ddiwedd mis Mawrth, bydd diwedd ympryd yn cael ei ddathlu. *Eid Mubarak!*

**Dydd Mawrth 11/2 oedd Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel.** Oherwydd ein Eisteddfod Ysgol rydym wedi gohirio hyrwyddo'r diwrnod pwysig hwn tan yn ddiweddarach ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'r ffocws eleni, *'Rhy dda i fod yn wir'* sy'n canolbwyntio ar sgamiau ar y wê yn cynnwys adnoddau diddorol i rieni ar wefan Hwb. Mae'r adnoddau rhagorol hyn yn wirioneddol ddefnyddiol wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y peryglon sy'n wynebu pobl ifanc ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer trafod peryglon diogelwch rhyngrwyd gyda'ch plant: ***Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy diogel***


*Bl 7 yn cyflwyno siec i'r Ganolfan Glyd*

***Y Ganolfan Glyd:*** Pleser oedd croesawu y Parch Dr Rosa Hunt, Gweinidog Capel y Tabernacl, i dderbyn ein casgliad Cyngerdd Nadolig i gefnogi Digartref Caerdydd.

**Hanner tymor y Pasg –** Pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl hanner tymor mis Chwefror, hoffwn eich atgoffa bod Dydd Llun 3 Mawrth yn ddiwrnod hyfforddi i athrawon, ac felly nid yw'r ysgol ar agor i ddisgyblion. Mae nifer o ddigwyddiadau pwysig i ddilyn yn ystod yr hanner tymor hwn:

| | |
|---|---|
| **3 Mawrth** | **HMS ysgol, dim ysgol i ddisgyblion** |
| 6 Mawrth | Noson Rhieni Bl10 3.15pm – 6.30pm |
| 7 Mawrth | Diwrnod Rhyngwladol Merched |
| | Taith preswyl Pêl-rwyd Bl7 & 8 i Liddington |
| 10 Mawrth | Ffug arholiadau Blwyddyn 10 |
| | Noson Opsiynau Blwyddyn 9 (Teams @5pm Cyfrwng Cymraeg) |
| 10 & 11 Maw | Ymweliad Preswyl Bl 8 â Chastell Warwick |
| 11 Mawrth | Arholiad Drama bl 11 |
| 13 Mawrth | Eisteddfod Ddawns Sirol |
| 17-19 Mawr | Taith preswyl *Pentre Ifan* Bl 9 |
| 20 Mawrth | Brechiadau HPV ar gyfer Bl 8 |
| **21 Mawrth** | **HMS ysgol, dim ysgol i ddisgyblion** |
| 24 Mawrth | Noson Opsiynau Bl8 (Teams @5pm Cyfrwng Cymraeg) |
| 27 Mawrth | Opsiynau Bl 8: Noson Agored 5pm - 7pm |
| 28 Mawrth | Eisteddfod Sir |
| 31 Mawrth | *Eid ul Fitr* |
| 3 Ebrill | Noson Rhieni Bl 8: 3.15pm - 6.30pm |



*Menna Grant Pencampwr dan20 Clwydi Prydain Dan Do*



*Prif Swyddogion 2025: Megan, Ollie, Osian a Libby*

**I gloi**: Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i staff Glantaf am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i lu o weithgareddau, yn addysgol ac allgyrsiol yn ystod yr hanner tymor diwethaf. O baratoi a chefnogi gwaith cwrs ac arholiadau i weithgareddau hwyliog *Dydd Miwsig Cymru*, mae wedi bod yn ddechrau pleserus a phrysur i 2025. A gaf i ddymuno yn dda i'r rhai sydd ar fin mentro ar yr ymweliad Sgïo ag Awstria a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus a diflino i'r ysgol.

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf


*Rhys ac Elen: Enillwyr y Gadair Eisteddfod 2025*